CYNGOR
CYMUNED
LLANBERIS A NANT PERIS

| **Cofnodion cyfarfod 13eg o Dachwedd 2024 a gynhaliwyd yn y Ganolfan am 7 yn yr hwyr** | | |
|---|---|---|
| **PRESENNOL** | | |
| **Bethan Holding** | **Iola Owen** | |
| **Rhys ap Gwilym** | **Helen Sharp** | |
| **Emlyn Baylis** | **Nia Jones** | |
| **Kevin Jones** | **Iwan Harding** | |
| **Kim Jones** | **Gwilym Evans** | |
| **Trystan Thomas** | **Llinos Pritchard** | |
| **1.** | **GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU** | |
| | Agorwyd y cyfarfod yn ffurfiol gan y Cadeirydd Gwilym Evans. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y canlynol, Cynghorydd Louise Price a'r Cynghorydd Kim Jones oedd gyda chyfarfod Llywodraethwyr yr ysgol. | **CLERC** |
| **1.1** | Ni chafwyd cyfranogiad gan y cyhoedd. | |
| **1.2** | Model Rheoliadau Ariannol - Derbyniwyd. | **Clerc** |
| **I.3** | Arwyddion A Rheolaeth Marathon Eryri - trafodwyd yr anhwylustod i'r pentref oherwydd y problemau a'r parcio di-feddwl sydd yn digwydd mewn mannau preswyl o fewn y pentref. Y Clerc i anfon at drefnwyr y Ras. | |
| **1.4** | Gwaith ail wynebu dros dro ffordd A4086 gan National Grid/Morgan Sindal wedi gwaith neiwd ceblau diweddar yn ardal gyferbyn a'r gyffordd yn arwain at Siemmens. - Trafodwyd y mater a gofynnwyd i'r Clerc anfon at Gyngor Gwynedd i gwyno am safon y gwaith. | **CLERC** |
| **1.5** | Cyfeiriwyd at y gordyfiant chwyn sydd ar ddwy ochr y ffordd A4086 o ben y twmnel i'r pentref. Y Clerc i anfon cwyn at Priffyrdd Gwynedd. Y Cynghorydd Gwilym Evans am wneud cais i Ardal ni ymweld â'r ardal. | |
| **1.6** | Safle Bws Nant Peris - mae arwyddion yn cyfeirio at Bws Sherpa wedi malu yn y safle bws, hefyd yr un broblem ym Maes Padarn. Y Clerc i anfon at Gyngor Gwynedd. | |
| **1.7** | Arwyddion Llanberis - ystyriwyd y cynllun i godi arwyddion newydd o fewn y pentref fel rhan o waith datblygu safle treftadaeth llechi'r byd. Roedd mwyafrif o'r Cyngor yn gwrthwynebu'r cynllun a bod y rhai sydd ar y safleoedd yn barod yn iawn. Y rhai a fwriedir ddim yn gweddu i'r ardal. Dim ond angen tynnu rhai oddi ar y polion sydd angen a gosod rhai newydd ar gyfer atyniadau newydd. Y Clerc i anfon adroddiad a phenderfyniad y Cyngor. | |
| **1.8** | Arwyddion Anghyfreithlon a "charging points" cerbydau trydan - trafodwyd y ddau fater hyn a'i gilydd. Mai ymweld bod pobl sydd â cherbydau trydan ac sydd yn cael trydan o'r tŷ i'r brifford yn | |

CYNGOR CYMUNED LLANBERIS A NANT PERIS

| | | |
|---|---|---|
| | rhoi arwyddion i nodi bod angen cadw'r safle yn wag. Nid yw'r arwyddion yma yn rhai awdurdodedig. | |
| **1.9** | Prosiect Cymunedol - bydd y mater yma yn cael ei drafod yn y cyfarfod misol nesaf. | |
| **1.10** | Llythyr gan drigolyn - cyflwynwyd er gwybodaeth. Y Cynghorydd Gwilym Evans yn ymdrin ag ef. | **GTE** |
| **2.0** | **DATGAN DIDDORDEB** | |
| | Dim | |
| **3.0** | **CADARNHAU GWARIANT A CHYFLWYNO ADRODDIAD ARIANNOL** | |
| **3.1** | Cyflwynwyd gwariant ac adroddiad ariannol mis Hydref 2024 a'u derbyn. | |
| **4.0** | **CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL A MATERION YN CODI** | |
| **4.1** | Cadarnhawyd cofnodion mis Hydref 2024. | |
| **4.2** | Bin sbwriel Cae Chware Lan Llyn - dal i ddisgwyl i Gyngor Gwynedd gyflwyno bin. Hefyd dywedodd y Clerc bydd biniau yn cael eu cyflwyno yn yr ardal fel rhan o'r gwelliannau Safle Treftadaeth Llechi'r Byd. Dim dilyniant ar y mater hyd yma. | |
| **4.3** | Cerflun Stryd/Coffa Chwarelwyr - dim dilyniant hyd yma. Mae cyfnod ymgynghoriad Cynllunio yn parhau i fod yn fyw. | **CLERC** |
| **4.4** | Panel HBO - cyfnod derbyn ceisiadau yn parhau yn agored nes Rhagfyr 1af 2024. | **CLERC** |
| **4.5** | Campfa Awyr Agored - dau bris wedi eu hanfon at Gyngor Gwynedd ar gyfer y gwaith. Nid gwybodaeth bellach i gyflwyno ar hyn o bryd. | **CLERC** |
| **4.6** | Menter/Partneriaeth Llanberis Partneriaeth Dyffryn Peris - roedd cais wedi dod i law gan Partneriaeth Dyffryn Peris ar gyfer gwahodd y Cyngor Cymuned Llanberis a Nant Peris i fod yn Bartner Sylfaenol. Ystyriwyd y cais yn sgil y penderfyniad a gymerwyd rhai misoedd yn ôl i arwain ar Fenter Partneriaeth i Lanberis yn Unig. Penderfynwyd byddai'r Cyngor yn derbyn y gwahoddiad i fod yn bartner sylfaenol a bod dau Gynghorydd yn cynrychioli'r Cyngor sef y Cynghorydd Bethan Holding a Chynghorydd Rhys Ap Gwilym. | **RhaG/BH** |
| **4.7** | Is-ddeddfau - wedi cyfarfod a Swyddog Cyngor Gwynedd a gweld nad oedd modd iddynt gyflwyno gorchymyn i wahardd parcio gan faniau yn y cilfannau nac ychwaith i orfodi'r gorchymyn. Penderfynwyd y Cyngor i edrych ar gyflwyno is-ddeddfau. Y Cynghorydd Beth Holding i wneud ymchwil a'r is-ddeddfau. | **CLERC/BH** |
| **4.8** | Waliau fyny i'r bwlch - dim ymateb gan y Parc Cenedlaethol. Priffyrdd wedi gofyn am archwiliad gan yr arolygydd ffordd. | **GTE** |
| **4.10** | Gwersylla mewn mannau anaddas - dim ymateb wedi bod gan Cadw. | |

CYNGOR
CYMUNED
LLANBERIS A NANT PERIS

| | | |
|---|---|---|
| **5.0** | **PRIFFYRDD A LLWYBRAU CYHOEDDUS** | |
| **5.1** | Dal i edrych am berson fyddai yn gwneud arolwg o'r llwybrau | **CLERC** |
| **6.0** | **Y FYNWENT** | |
| **6.1** | Mae brigyn o goeden sydd yn y Fynwent yn amharu ar dy gyferbyn, mae angen tocio'r goeden. Y Clerc i Drefnu. | **CLERC** |
| **6.2** | Nid yw pwyllgor wedi cyfarfod er mwyn ystyried rheolau'r fynwent. Angen i'r cadeirydd drefnu dyddiad. | **GTE** |
| **7.0** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
| | Dim | |
| **8.0** | **GWEITHGAREDDAU CYMUNEDOL** | |
| **8.1** | Bydd y Clerc yn hysbysebu'r aelodau pan fydd y Coed 'Dolig yn cael eu danfon. | |
| **9.0** | **ADRODDIADAU CYRFF ALLANOL** | |
| | Dim Adroddiad | |
| | Daeth y cyfarfod i ben am 9 yn y r hwyr. | |
| **Llofnod:** | Gwilym T. Evans. | **Dyddiad : 11/1224** |